# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Bro Morgannwg

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Bro Morgannwg i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Bro Morgannwg 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, 1 yn rhannol a methodd â bodloni 1.

O'r 9 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, cyflawnodd Bro Morgannwg 6 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 2.

Ar y cyfan mae lefelau gwasanaeth ym Mro Morgannwg wedi parhau yr un fath drwy gydol y chweched fframwaith. Mae cynnal lefelau staffio, cynnydd yn nifer y defnyddwyr a chyllideb refeniw uwch yn 2019/20 i gyd yn ddatblygiadau cadarnhaol. Mae’r oriau agor yn parhau’n gymharol isel, er bod y gwasanaeth yn cynnig oriau agor ychwanegol y tu allan i oriau, heb staff, yn ei lyfrgell ganolog drwy Open+, gwasanaeth sy’n cael ei werthfawrogi gan y rheini sy’n ei ddefnyddio, a bydd estyn y gwasanaeth hwn i ganghennau eraill o fudd i'r cymunedau hynny. Mae'r ffaith nad yw arolwg defnyddwyr ar gyfer oedolion wedi cael ei gynnal yn 2019/20 yn destun siom, a bydd adborth gan gwsmeriaid yn hanfodol er mwyn parhau i wella'r gwasanaeth. Ni roddwyd ar waith gynlluniau i gyhoeddi strategaeth llyfrgelloedd yn 2018/19 oherwydd amseriadau gyda strategaeth ehangach gan y Cyngor yr oedd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gobeithio cyd-fynd â hi. Bydd fframwaith ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol yn hanfodol wrth i lyfrgelloedd brofi cyfnod o newid o ganlyniad i effaith Covid-19.

- Mae defnydd wedi cynyddu ym mhob maes ar wahân i ymweliadau allanol â gwefan y llyfrgell. Mae ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi cynyddu 27% er 2018/19, yn bennaf oherwydd bod mwy o wasanaethau’r Cyngor yn cael eu darparu drwy lyfrgelloedd.
- Mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 165% er 2017/18, fel ym mhob gwasanaeth yng Nghymru.
- Mae’r gwasanaeth wedi methu â chyflawni’r targed ar gyfer caffaeliadau fesul pen o’r boblogaeth (DA 9) am y tro cyntaf yn ystod y chweched fframwaith, yn bennaf oherwydd newid yn y trefniadau adrodd am safonau, wrth gyfrifo ar gyfer ychwanegu adnoddau electronig ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.
- Gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, er bod y gwasanaeth yn parhau i gyflawni’r targed gwariant cymesur, gan alluogi’r gwasanaeth i barhau i gyflawni DA 10.
- Mae cyfanswm y staff a’r lefelau staffio presennol wedi’u cynnal at ei gilydd yn 2019/20, â gostyngiad bach iawn yng nghyfanswm y staff. Mae lefelau staffio yn uwch na’r canolrif yng Nghymru, ac mae Bro Morgannwg yn un o bedwar gwasanaeth yn unig yng Nghymru sy’n cyflawni’r targed staffio proffesiynol.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Bro Morgannwg yn parhau i gyflawni 10 o’r 12 hawl graidd yn llawn, ac un yn rhannol, ac nid yw’n cyflawni HG 12 gan nad oes strategaeth llyfrgell ar hyn o bryd. Mae’r gwasanaeth yn cyflawni HG 11 yn rhannol gan na wnaeth gynnal ei arolwg o ddefnyddwyr sy’n oedolion yn ystod y fframwaith.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith COVID-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o’r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O’r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Bro Morgannwg, yn cyflawni 6 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 2 ohonynt.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | √ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | √ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | √ | |
| d) Datblygu darllenwyr | √ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | √ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | √ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | √ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | √ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | √ | |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | √ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | √ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen | x | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | √ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | √ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | √ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | √ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | √ | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | √ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | x | Heb ei gyflawni |

Mae Bro Morgannwg wedi gwella ei berfformiad yn 2019/20 ac mae DA 3 (Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol) yn cael ei gyflawni'n llawn erbyn hyn. Cynigir hyfforddiant er mwyn gwella llythrennedd, rhifedd, llythrennedd gwybodaeth a sgiliau digidol ym mhob man gwasanaeth erbyn hyn.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Nid yw Bro Morgannwg wedi cynnal arolwg oedolion yn ystod y fframwaith presennol. Cynhaliwyd yr arolwg oedolion diwethaf yn ystod fframwaith 5. Mae'r gwasanaeth yn un o bump yn unig nad yw wedi cynnal arolwg oedolion yn y fframwaith hwn. Cynhaliwyd arolwg plant ym mis Chwefror 2020.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 89% | *15/19* | 60% | 90% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | dd/b | dd/b | 41% | 85% | 99% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Bro Morgannwg ddwy astudiaeth achos o'r fath, ynghyd ag adborth ehangach gan ddefnyddwyr:

- Cydweithredu â Llamau – cyfle i unigolyn wneud gwaith gwirfoddol. Cyfrannodd unigolyn at brosiect digidol yn y llyfrgell, a oedd yn ymwneud â sganio lluniau a'u lanlwytho i wefan Casgliad y Werin. Cafodd y profiad hwn effaith gadarnhaol iawn ar yr unigolyn dan sylw; roedd yn hwb i'w hyder ac i'w iechyd meddwl.
- Partneriaeth ddigidol – cynllun benthyca cyfrifiaduron llechen. Mae cynllun i fenthyca cyfrifiaduron llechen sy'n gallu defnyddio Wi-Fi wedi helpu i leihau allgáu digidol. Mae'r prosiect hwn wedi chwalu rhwystrau ac agor drysau i unigolion nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd a rhai sydd heb sgiliau digidol. Yn achos un wraig sydd wedi ymddeol, mae'r iPad y cafodd ei fenthyg wedi ei galluogi i gadw mewn cysylltiad â'i theulu, yn ogystal â siopa ar-lein, dod o hyd i wybodaeth a chael adloniant.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Bro Morgannwg ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

| **Dangosydd perfformiad** | | ***Safle*** | **Isaf** | **Canolrif** | **Uchaf** | ***2018/19*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | dd/b | | 25% | 75% | 94% | *dd/b* |
| c) iechyd a lles | dd/b | | 38% | 69% | 96% | *dd/b* |
| d) lle diogel a chroesawgar | dd/b | | 90% | 96% | 100% | *dd/b* |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | dd/b | | 78% | 91% | 99% | *dd/b* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 88% | 97% | 100% | *dd/b* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 65% | 85% | 99% | *dd/b* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | dd/b | | 85% | 96% | 100% | *dd/b* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.0 | *=15/19* | 8.0 | 9.1 | 9.5 | *dd/b* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 5,333 | *3/22* | 2429 | 3987 | 6874 | *4,293* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 240 | *21/22* | 239 | 909 | 2131 | *345* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 226 | *2/22* | 78 | 145 | 244 | *221* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 829 | *9/22* | 311 | 680 | 1468 | *783* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul 10,000 | 9 | *12/22* | 4 | 9 | 14 | *9* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 30% | *=8/22* | 14% | 30% | 64% | *33%* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £14,811 | *6/22* | £7,260 | £12,448 | £23,333 | *£14,614* |
| b) % ar staff | 58% | *=13/22* | 48% | 61% | 76% | *56%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 11% | *=13/22* | 5% | 13% | 22% | *11%* |
| % ar offer ac adeiladau | 4% | *=13/22* | 0% | 8% | 28% | *6%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 28% | *6/22* | 1% | 18% | 35% | *27%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £138 | *13/22* | £0 | £1,567 | £13,027 | *£146* |
| DA 16 – Oriau agor[3] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 0.23% | 3.96% | *0.00%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 1.07% | 5.41% | *0.00%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; [3] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)[i]

Nid yw Bro Morgannwg wedi cynnal ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion eto; roedd wedi bwriadu ei gynnal yn 2019/20. Cynhaliwyd arolwg plant ym mis Chwefror 2020. Gwelwyd gostyngiad bach yng nghanran y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a dod i wybod pethau, ond nid yw'r sgôr gyfartalog gyffredinol allan o ddeg wedi newid. Mae Bro Morgannwg wedi gwella ei berfformiad yn 2019/20, ac erbyn hyn mae DA 3 (Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol) yn cael ei gyflawni'n llawn. Darperir cefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant ym mhob llyfrgell, ac mae'r targedau (DA 4) yn y maes hwn yn cael eu cyflawni'n llawn. Yn ychwanegol at hyn, mae pob llyfrgell wedi cynnal o leiaf un gweithgaredd ymwybyddiaeth o iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)[ii]

Mae Bro Morgannwg yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Mae defnydd wedi cynyddu ym mhob maes ar wahân i ymweliadau allanol â gwefan y llyfrgell, wrth i fwy o bobl fynd yn syth at yr apiau e-adnoddau yn lle hynny. Mae ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi cynyddu 27% er 2018/19. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith fod llyfrgelloedd wedi dod yn brif fan dosbarthu ar gyfer bagiau ailgylchu newydd, ac mae llawer o bobl yn dod i'r llyfrgell i gael help i adnewyddu pasys bws ar-lein. Erbyn hyn mae Bro Morgannwg yn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran ymweliadau corfforol fesul pen o'r boblogaeth, ac mae'r gwasanaeth wedi elwa ar yr ymwelwyr newydd hyn ar ffurf cynnydd yn ei benthycwyr gweithredol. Mae benthycwyr gweithredol fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r lefelau canolrifol yng Nghymru. Er gwaetha'r cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, mae ffigurau fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r lefelau canolrifol yng Nghymru. Mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 165% er 2017/18, yn unol â'r patrwm ym mhob gwasanaeth arall yng Nghymru.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[iii]

Mae cyfanswm y gwariant ar ddeunyddiau, a'r gwariant ar ddeunyddiau a brynwyd ar gyfer plant ill dau wedi cynyddu ychydig yn ystod 2019/20. Am y tro cyntaf yn ystod y chweched fframwaith nid yw'r gwasanaeth wedi cyflawni'r targed ar gyfer caffaeliadau fesul pen o'r boblogaeth (DA 9), a hynny oherwydd newid y cytunwyd arno'n ganolog yn y dull o ddyrannu adnoddau electronig sy'n cael eu prynu'n ganolog ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20. Mae Bro Morgannwg yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r gwariant ar ddeunyddiau fesul pen o'r boblogaeth hefyd yn parhau heb ei gyflawni eleni. Gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, er bod y gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targed gwariant cymesur, gan ei alluogi i barhau i gyflawni DA 10. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol a'r defnydd ohonynt at ei gilydd wedi'i gynnal, â gostyngiad bach yn y defnydd, fel mewn gwasanaethau eraill wrth i fwy a mwy o aelodau ddefnyddio eu dyfeisiau eu

hunain a Wi-Fi di-dâl y llyfrgell. Mae’r gwasanaeth yn parhau i gyflawni’r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12), â newid bach iawn.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)[iv]

Mae cyfanswm y staff a’r lefelau staffio proffesiynol wedi’u cynnal at ei gilydd yn 2019/20, â gostyngiad bach iawn yng nghyfanswm y staff sydd mewn swyddi. Mae’r lefelau staffio’n uwch na’r canolrif yng Nghymru. Er hyn, nid yw’r targed ar gyfer staff fesul pen o’r boblogaeth (DA 13) wedi’i gyflawni. Mae nifer y staff cymwysedig wedi gostwng ychydig, ond mae Bro Morgannwg yn un o bedwar gwasanaeth yn unig sydd wedi cyflawni’r targed a nodwyd yn y maes hwn. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig er 2018/19. Mae gwariant fesul pen o’r boblogaeth yn parhau’n uwch na’r canolrif. Mae’r Fro wedi buddsoddi mewn cyfarpar TG newydd yn barod ar gyfer uwchraddio i Windows 10 ac mae wedi parhau i fuddsoddi yn yr ystâd llyfrgelloedd. Mae’r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi’u cynnal at ei gilydd, ac maent yn parhau’n llawer is na’r targed, ac yn y chwartel isaf yng Nghymru. Mae’r gwasanaeth yn parhau i ddarparu 16 o oriau di-staff ‘y tu allan i oriau’ bob wythnos mewn un llyfrgell sy’n defnyddio technoleg Open+, ac nid yw’r oriau hyn wedi’u cynnwys yn y datganiad. Nodir bod y defnyddwyr sy’n ymweld â’r llyfrgell yn ystod yr oriau hyn yn eu gwerthfawrogi.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o’r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae’r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a’i nodau strategol. Mae naratif Bro Morgannwg yn dangos sut y mae’r gwasanaeth yn cyfrannu tuag at raglen Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016 – 2021. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau iechyd a llesiant mewn llyfrgelloedd ynghyd â nifer o grwpiau cleifion (*Iach ac Egnïol ).* Cynigiodd y gwasanaeth hefyd hyfforddiant sgiliau sylfaenol, clybiau swyddi a sesiynau cymorth galw heibio (*Ffyniannus a Diogel).* Meysydd eraill a nodwyd oedd *Uchelgeisiol ac yn Dysgu* (cefnogi llythrennedd plant ifanc) a *Unedig a Chysylltiedig* (mae hyrwyddwyr digidol gwirfoddol ar gael i helpu â chynhwysiant digidol ym mhob llyfrgell).

## 5 Cyfeiriad i’r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Bro Morgannwg yn pwysleisio pa mor bwysig yw addasu’r ddarpariaeth lyfrgell o ganlyniad i effaith Covid-19. Mae’r gwasanaeth yn bwriadu parhau i hybu ei wasanaethau ar-lein a datblygu ffyrdd newydd wrth i ddisgwyliadau cwsmeriaid newid. Bydd y gwasanaeth yn parhau i ymestyn ei fodel Open+ llwyddiannus, gan ddarparu rhagor o fynediad di-staff ‘y tu allan i oriau’ mewn mwy o ganghennau. Bydd y gwaith o ddatblygu Llyfrgell Penarth yn parhau, a’r llawr cyntaf yn cael ei adnewyddu yn 2021.

## 6 Casgliad

Ar y cyfan mae lefelau gwasanaeth ym Mro Morgannwg wedi parhau yr un fath drwy gydol y chweched fframwaith. Mae cynnal lefelau staffio, cynnydd yn nifer y defnyddwyr a chyllideb refeniw uwch yn 2019/20 i gyd yn ddatblygiadau cadarnhaol. Mae’r oriau agor yn

parhau'n gymharol isel, er bod y gwasanaeth yn cynnig oriau agor ychwanegol y tu allan i oriau, heb staff, yn ei lyfrgell ganolog drwy Open+, gwasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi gan y rheini sy'n ei ddefnyddio, a bydd estyn y gwasanaeth hwn i ganghennau eraill o fudd i'r cymunedau hynny. Mae'r ffaith nad yw arolwg defnyddwyr ar gyfer oedolion wedi cael ei gynnal yn 2019/20 yn destun siom, a bydd adborth gan gwsmeriaid yn hanfodol er mwyn parhau i wella'r gwasanaeth. Ni roddwyd ar waith gynlluniau i gyhoeddi strategaeth llyfrgelloedd yn 2018/19 oherwydd amseriadau gyda strategaeth ehangach gan y Cyngor yr oedd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gobeithio cyd-fynd â hi. Bydd fframwaith ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol yn hanfodol wrth i lyfrgelloedd brofi cyfnod o newid o ganlyniad i effaith Covid-19.

---

[i] *Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*

[ii] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*

[iii] *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*

[iv] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*